

24AIN O IONAWR

Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



Wythnos yma

Dydd Miwsig Cymru

Byddwn yn dathlu Dydd Miwsig Cymru yn yr ysgol ar ddydd Gwener, y 7fed o Chwefror. Mae'r staff wrthi yn trefnu llu o weithgareddau a pherfformiadau cyffrous i'r plant fwynhau yn ystod y dydd. Mae gwybodaeth isod, am y cystadlaethau sydd gennym eleni yn yr ysgol. Cofiwch i uwchlwytho eich fideos i'r cyfeiriad e-bost MiwsigD5@hwbcymru.net erbyn 12yp, dydd Mercher y 5ed o Chwefror. Byddwn yn cyhoeddi'r enillwyr yng nghylchlythyr y 7fed o Chwefror. Pob lwc i bawb!

Eisteddfod yr Urdd

Er mwyn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd mae rhaid i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd. (Rhaid diweddarau aelodaeth bob blwyddyn). Dyma linc i'r Porth ble fyddwch yn gallu ymaelodi eich plentyn. <https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/ymaelodi-dy-hun-dy-blant-neu-deulu-gydar-urdd/>

Cwricwlwm

Diolch yn fawr i Addewid Caerdydd am ddod mewn i'r ysgol wythnos yma i drafod gyda'r staff a rhoi syniadau sut allwn gyfoethogi ymhellach cysyniadau'r tymor. Byddwn yn rhannu trosolwg y tymor bob blwyddyn, gyda chi wythnos nesaf. Mae'r disgyblion yn ystod eu diwrnodau darganfod wedi cyfrannu cwestiynau tuag at gysyniad y tymor ac rydym hefyd yn awyddus i gael eich barn chi fel rhieni. Byddwn yn rhannu holiadur gyda chi wythnos nesaf ac edrychwn ymlaen at glywed eich syniadau.

Grawnwin

Os fydd eich plant yn dod a grawniwn i'r ysgol i fwyta amser egwyl neu amser cinio, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod y grawniwn wedi eu torri. Diolch am eich cymorth.

Calendr

**Cyfarfod y GRhA
yn "Y Nyth"
Ysgol Treganna
5.30yp
28/1/25**

**Bws Beic
31/1/25**

**Dydd Miwsig
Cymru
7/2/25**

Cystadlaethau Dydd Miwsig Cymru



Yn giamstar ar ganu, neu'n feistr lip-sync?

Bydd disgwyl i gystadleuwyr uwchlwytho eu fideos, a lluniau o'u campweithiau creadigol, i'n cyfeiriad ebost erbyn 12yp, dydd Mercher 5ed o Chwefror - MiwsigD5@hwbcymru.net

Byddwn yn cyhoeddi'r enillwyr ac yn rhannu uchafbwyntiau pob cystadleuaeth ar gylchlythyr yr ysgol.

Dydd Miwsig Cymru 2025

Ewch amdant!

Cewch hyd i lu o restrau chwarae Dydd Miwsig Cymru ar Spotify.



Lip-sync i Gân Gymraeg

Unigol, pâr neu grp

Hunan-ddewisiad, heb fod yn hirach nag 1 munud. Agored i bawb : plant, rhieni, neiniau, teidiau - a staff!

£10 amazon

Dawns Ystafell Fyw

Unigol, pâr neu grp

Dawnsiwch yn hwylus i gân Gymraeg o'ch dewis chi, heb fod yn hirach nag 1 munud. Agored i blant a theluoedd.

£10 amazon

Creu crys-t ar gyfer eich hoff fand

Beth am ddylunio crys-t deniadol ar gyfer eich hoff fand. Agored i blant yn unig.

£10 amazon

Dydd Miwsig Cymru 2025

Diolch i'r staff sydd wedi trefnu'r holl gystadlaethau yma.

Pob lwc i bawb!

Bore Agored y Feithrin

Rydym yn cynnal bore agored yn yr ysgol i rieni sydd â phlant yn cychwyn yn y Feithrin ym mis Medi 2025. Croeso mawr i bawb!

**BORE AGORED
YSGOL TREGANNA**

**DOES DIM
NENFWD**



A fydd eich plentyn yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi 2025?

Dewch i ymweld ag ysgol Treganna ar **ddydd Gwener, Ionawr y 31ain am 10.00yb**

Bydd cyfle i fynd am daith o gwmpas yr ysgol, cyfle i gwrdd â'n staff a bydd croeso mawr i bawb!

Pa ddarpariaeth sydd gennym?

.....
Clwb Brecwast am ddim i ddisgyblion Meithrin i F16 o 8.10yb

.....
Clwb Cymer Ofal ar ôl ysgol i ddisgyblion Meithrin i F16 tan 6.00yb

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n hysgol. Cofrestrwch eich diddordeb isod.



Patrwm Iaith yr Wythnos

Patrwm iaith wythnos nesaf

“Dwi'n hoffi”

“Dydw i ddim yn hoffi”

Her

“Yn fy marn i, mae...yn (ansoddair)...”

“Mae'n well gen i... oherwydd...”

Testun trafod yr wythnos

Cymwynas dda wnes i heddiw oedd...

Cân yr wythnos

Ynys - Dosbarth Nos

Idiom yr wythnos

Dro ar ôl tro

